COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 25 MEHEFIN 2025 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe | S J Bletsoe |
| JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke | Clatworthy |
| RJ Collins | C Davies | P Davies | S Easterbrook |
| M J Evans | N Farr | J Gebbie | W R Goode |
| RM Granville | H Griffiths | S J Griffiths | GH Haines |
| D T Harrison | M L Hughes | D M Hughes | P W Jenkins |
| M R John | M Jones | W J Kendall | M Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | J E Pratt | JC Spanswick |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | A Wathan | HM Williams |
| I Williams | MJ Williams | E D Winstanley | T Wood |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | C L C Davies | R J Smith | I M Spiller |
| A Ulberini-Williams | G Walter | AJ Williams | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P Ford a/ac RM James

Datganiadau o Ddiddordeb

Swyddogion:

Mark Galvin — Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Oscar Roberts | Business Administrative Apprentice - Democratic Services |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu |
| Richard Matthams | Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth |
| Adam Provoost | Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Strategol |

## 149. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr P Ford ac RM James. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 150. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cynghorydd Steven Bletsoe ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 7 ar yr Agenda. Gadawodd y Cynghorydd Bletsoe y cyfarfod tra roedd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried .<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Elaine Winstanley ddatgan buddiant personol yn eitem 9 ar yr Agenda gan fod peth o'r cynnwys a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad yn effeithio ar ei chyflogwr. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 151. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cyngor dyddiedig 2 Ebrill, 9 Ebrill a 14 Mai 2025 fel cofnodon gwir a chywir:-<br><br>Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chofnod cyfarfod 14 Mai, ar ôl gwirio gyda Chydbwyllgor Corfforaethol De-Ddwyrain Cymru, na all y Cynghorydd Simon Griffiths eistedd ar y corff hwn yn awr fel aelod, ac na all ychwaith eistedd ar yr Is-bwyllgor Archwilio. Felly, nodwyd ei fod wedi rhoi i fyny ei aelodaeth o'r ddau ac, ar amser ysgrifennu, fod y Cynghorydd Graham Walter wedi cael ei benodi yn ei le ar Gydbwyllgor Corfforaethol De-Ddwyrain Cymru |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 152. Cyflwyniad i'r Cyngor gan gynrychiolwyr Valleys To Coast (V2C)

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn cyflwyno Jo Oak, Prif Swyddog Gweithredol Valleys To Coast ynghyd â chydweithwyr o'r Uwch Dîm Gweithredol, a roddodd ddisgrifiad a chrynodeb o waith y sefydliad o ran darparu tai i drigolion ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Dywedodd y byddai'r cyflwyniad yn rhoi crynodeb o flaenoriaethau a'r perfformiad a gyflawnwyd dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn ogystal ag edrych ymlaen at y dyfodol. Roedd y cyflwyniad hefyd yn amlinellu llwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys lefelau newydd o fuddsoddiad mewn cartrefi a sicrhau bod buddsoddiad yn cael yr effaith fwyaf posibl. Mae lleihau nifer cwynion hefyd wedi bod yn flaenoriaeth drwy wella gwasanaethau'n rhagweithiol a chynyddu cyflogaeth i wella'r gwasanaethau oedd yn cael eu darparu.<br><br>Hefyd roedd yn cynnwys arolwg a gynhaliwyd gyda thrigolion ynghylch gwahanol feysydd gwasanaeth Valleys to Coast, gydag wyth maes yn dangos gwelliant mewn boddhad a phedwar yn dangos gostyngiad.<br><br>Yn dilyn cyflwyniad Ms Oak, gwahoddodd y Maer gwestiynau, ac roedd enghreifftiau o'r rhain fel a ganlyn:<br><br>• Rheoli eiddo gwag.<br>• Effaith Mesur Hawliau Cyflogaeth ar weithlu V2C.<br>• Mynediad at bwyntiau gwefru cerbydau trydan.<br>• Manylion ystadegau adeiladu cartrefi V2C.<br>• Strategaeth V2C ar Ymddygiad gwrth-gymdeithasol cymhleth neu achosion o ddefnyddio / gwerthu cyffuriau. |

| | |
|---|---|
| | • Cynlluniau i ehangu er mwyn ymdopi â datblygu, cynnydd ac anghenion.<br><br>Cadarnhaodd Ms Oak y byddai hi a’i chydweithwyr yn dilyn i fyny’r cwestiynau a’r ymholiadau a godwyd uchod (yn ogystal ag unrhyw rai eraill) ac yn ymateb iddynt y tu allan i’r cyfarfod.<br><br>PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Prif Weithredwr a’r cyflwyniad gan Brif Weithredwr Valleys To Coast. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**153. I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y boneddigion canlynol (nid oedd angen penderfyniadau ac ni wnaed dim):-<br><br>• Y Maer;<br>• Y Prif Weithredwr<br><br>Dymunai’r Prif Weithredwr ddweud ychydig eiriau gan mai hwn oedd ei gyfarfod olaf yn y Cyngor, cyn iddo ymddeol o lywodraeth leol ar ddiwedd y mis hwn.<br><br>Buasai yn CBSP ac yn yr awdurdod blaenorol, sef Cyngor Bwrdeistref Ogwr am dros 30 mlynedd ac yn y cyfnod hwnnw roedd ef a’i gydweithwyr wedi wynebu rhai adegau heriol, ac nid y lleiaf o’r rhain oedd Pandemig Covid.<br><br>Mynegodd ei ddiolchgarwch i gyd-swyddogion yr oedd wedi gweithio gyda hwy yn ystod ei yrfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr  a diolchodd hefyd i’r aelodau gan gynnwys y Cabinet, yr Arweinydd presennol, yr Arweinydd blaenorol (y Maer presennol) ac Arweinwyr grwpiau Aelodau Annibynnol Sir Pen-y-bont a’r Gynghrair Ddemocrataidd am eu cefnogaeth.<br><br>Diolchodd yr Arweinydd, Arweinwyr y Grwpiau a’r Maer yn eu tro i’r Prif Weithredwr am ei gyfraniadau yn ystod ei yrfa yn gweithio ym Mhen-y-bont. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**154. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (nid oedd angen gwneud unrhyw benderfyniadau nac unrhyw benderfyniadau). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 155. Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau adroddiad, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Cyngor am ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori cyhoeddus ar y ddogfen ddrafft, Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Tai Fforddiadwy. Gofynnai'r adroddiad hefyd am gymeradwyaeth y Cyngor i fabwysiadu'r CCA Tai Fforddiadwy ar ffurf derfynol (Atodiad 1 i'r adroddiad y cyfeirir ato), er mwyn cefnogi'r Polisïau Tai Fforddiadwy o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd a fabwysiadwyd, Mawrth 2024 (CDLl).<br><br>Roedd paragraff 2.8 o'r adroddiad yn darparu canllawiau wedi eu diweddaru a/neu arweiniad penodol ar y categori hwn o CCA a chyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau at hyn er budd yr aelodau.<br><br>Estynnodd y Dirprwy Arweinydd ei diolch i'r swyddogion am ystyried ei hymholiad blaenorol ynghylch tai fforddiadwy a'r eglurhad a roddwyd ar hyn o ran cynllunio.<br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:<br><br>(a) Nodi cynnwys yr Adroddiad a chymeradwyo ymatebion ymgynghori'r Swyddog i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft ar Dai Fforddiadwy, ynghyd â'r gwelliannau canlyniadol a nodwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad.<br><br>(b) Mabwysiadu ffurf derfynol y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy (yn Atodiad 1) i'w cymhwyso ar unwaith wrth wneud penderfyniadau rheoli datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ynghyd â'r CDLl newydd a fabwysiadwyd, yn amodol ar ddarpariaethau Argymhellion c) a d) yn yr adroddiad.<br><br>(c) Awdurdodi Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau a Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol, cywiriadau teipograffeg neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn cyhoeddi'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd; ac<br><br>(d) Awdurdodi ymhellach Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau a Rheolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i ymgymryd a chyhoeddi diweddariadau blynyddol i 'werthoedd trosglwyddo' Tai |

| | |
|---|---|
| | Fforddiadwy, fel y manylwyd yn 'Atodiad A' i ffurf derfynol y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 156. Diwygio Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer cyfres o welliannau i'r Cynlluniau Dirprwyo Swyddogaethau.<br><br>Yn fwy penodol, roedd angen y newidiadau i ganiatáu i Swyddogion a enwyd o fewn Cyfarwyddiaeth y Cymunedau yr hawl gyfreithiol i fynd ar dir fel rhan o'u dyletswyddau. Caiff rhestr y swyddogion a enwyd ei diweddaru'n flynyddol a bydd yn cynnwys Swyddogion o'r adrannau Cynllunio, Gorfodi, Rheoli Adeiladu, Cadwraeth a Dylunio Adeiladau, Priffyrdd, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus.<br><br>Roedd paragraff 3.1 o'r adroddiad yn cynnig y dylai'r swyddogaeth ddirprwyedig a roddwyd i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yng Nghynllun B2 paragraff 6.1(d) mewn perthynas â rhoi awdurdodiad ysgrifenedig i swyddogion priodol i'w galluogi i arfer pwerau mynediad, gael ei diweddaru i gynnwys deddfwriaeth fel y cyfeirir ati yn yr adran honno o'r adroddiad.<br><br>Gofynnodd Aelod y cwestiynau canlynol:-<br><br>• O ran paragraff 3.1 o'r adroddiad, rydw i'n cydnabod y byddai ar swyddogion y Cyngor angen awdurdod dirprwyedig i fynd i mewn i rai adeiladau, yn enwedig ar fyr rybudd ar adegau. Gofynnodd, fodd bynnag, pam y cyfeirir at Adran 106 o Ddeddf Seilwaith Cymru 2024 yn yr adran hon o'r adroddiad, h.y. a oes rhywbeth yn y Ddeddf benodol honno sy'n ymwneud â mynd i mewn i adeiladau?<br><br>• Oes yna bolisi a/neu broses sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yn ymwneud â swyddogion yn mynd i mewn i adeiladau peryglus neu adeiladau sy'n cynnwys sylweddau peryglus ynddynt, yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch ac a oes yna hyfforddiant hefyd i'r swyddogion hyn ac, er enghraifft, offer arbennig wedi ei ddarparu ar eu cyfer cyn iddynt fynd i mewn?<br><br>Atebwyd y pwyntiau hyn gan Reolwr Grŵp y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau a'r Swyddog Monitro ill tri yn eu tro. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn gwneud y canlynol<br><br>(1) Cymeradwyo'r gwelliannau i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau fel yr eglurwyd ym Mharagraffau 3.1 a 3.2 yr adroddiad.<br><br>(2) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud newidiadau yn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau lle mae angen gwneud newidiadau o'r fath, er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol. Daw y newidiadau hynny i rym pan fydd y Swyddog Monitro'n penderfynu neu mae'r ddeddfwriaeth (lle bo'n berthnasol) yn darparu. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 157. Alldro Cyllideb Refeniw 2024-25

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am sefyllfa ariannol refeniw'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.<br><br>Nodai'r adroddiad danwariant net ar gyllideb y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 o tua £300 mil. Nodwyd, fodd bynnag, er bod hyn yn newyddion cadarnhaol, ei fod yn cuddio rhai pwysau sylfaenol ar y gyllideb, o ganlyniad i dderbyn grantiau Llywodraeth Cymru a ddyfarnwyd yn hwyr yn y flwyddyn uchod, tuag at ddyfarniad cyflog athrawon ynghyd â £2.024 mil pellach i gyfrannu tuag at bwysau costau refeniw.<br><br>Roedd pwysau ariannol pellach hefyd gan gynnwys gorwariant o gyllidebau'r Gyfarwyddiaeth, gyda phwysau parhaus yn cael eu profi ym meysydd gwasanaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol, gofal cymdeithasol plant ac anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Roedd y Cyngor wedi gweld gostyngiad o £1.5 miliwn yn ei rwymedigaeth i'r gronfa yswiriant gyffredinol ar ôl i nifer o hawliadau gael eu gwrthod neu eu hatal, gyda phremiymau treth gyngor ychwanegol ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi wedi rhoi hwb i refeniw'r dreth gyngor o ryw £611 mil. Fodd bynnag, pe na bai rhai o'r premiymau hyn wedi cael eu casglu, efallai y byddai incwm disgwyliedig y dreth gyngor wedi bod tua £99 mil yn fyr.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid y byddai'n rhaid i'r Cyngor barhau i weithio'n galed yn y flwyddyn ariannol i ddod er mwyn cynnal gwariant o fewn y terfynau a ddyrannwyd, gan dynnu sylw at |

| | |
|---|---|
| | ddiffyg mewn arbedion a dargedwyd o ychydig dros £1.5 miliwn.<br><br>Dywedodd aelod, gyda phwysau cyllidebol yn cael eu teimlo ledled Cymru, y dylai'r Cyngor barhau i lobïo am setliadau ariannu aml-flwyddyn ar gyfer awdurdodau lleol, er mwyn caniatáu iddynt gynllunio'n well ymlaen llaw a chael cyfle pellach i ystyried eu hymrwymiadau a'u rhwymedigaethau ariannol yn y tymor hwy.<br><br>Dywedodd Aelod y Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad y byddai'r adroddiad yn cael ei ystyried yn fanylach mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ddydd Llun 30 Mehefin 2025.<br><br>Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau i'r swyddogion, ac wedi hynny,<br><br><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn nodi'r sefyllfa Allbwn Refeniw am 2024-25. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**158. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Y Cynghorydd Colin Davies i Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid (cafodd yr ymateb ei gylchredeg o'r blaen i'r aelodau).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Davies ac atebwyd hwn yn y cyfarfod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**159. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Y Cynghorydd Martin Williams i Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid (cafodd yr ymateb ei gylchredeg o'r blaen i'r aelodau).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Williams ac atebwyd hwn yn y cyfarfod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**160. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Y Cynghorydd Tim Thomas i Aelod y Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai (cafodd yr ymateb ei gylchredeg o'r blaen i'r aelodau).<br><br>Gofynnwyd cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Thomas ac atebwyd hwn yn y cyfarfod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

## 161. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Jon-Paul Blundell

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Bu'r Aelodau yn dadlau dros yr Hysbysiad o Gynnig fel yr eglurwyd yn Eitem 13 ar yr Agenda ar agenda cyfarfod heddiw.<br><br>Er bod yr aelodau, ar wahân i leiafrif bychan, yn cytuno'n gyffredinol gyda'r cynnig, cynigiodd Y Cynghorydd Tim Thomas fod paragraff arall yn cael ei ychwanegu at y cynnig, fel a ganlyn:-<br>**'Cyn gynted ag y bydd y Bil wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ac y bydd iddo'r cymhwysedd i fod yn ddeddfwriaeth yng Nghymru, caiff busnesau eu cyfeirio at y canllawiau perthnasol mewn dull cost-effeithiol a phriodol, er mwyn sicrhau bod busnesau o'r fath yn osgoi unrhyw sancsiynau dianghenraid.'**<br><br>Cafodd y gwelliant hwn ei eilio.<br><br>Felly, pleidleisiodd yr Aelodau ar y gwelliant ar-lein drwy gyfrwng ap newydd Mod.Gov voting, gyda lleiafrif o'r aelodau yn pleidleisio ar lafar. Roedd cyfanswm canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:-<br><br><u>Dros (y gwelliant)</u>     <u>Yn erbyn</u>     <u>Heb bleidleisio</u><br><br>37     4     0<br><br>Felly, cafodd y gwelliant ei basio.<br><br>Pleidleisiodd yr Aelodau wedyn yn yr un ffordd ar y prif gynnig, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:-<br><br><u>Dros (y cynnig)</u>     <u>Yn erbyn</u>     <u>Heb bleidleisio</u> |

| | |
|---|---|
| | 37 2 0<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cynnig fel y'i heglurir ar agenda'r cyfarfod (eitem 13) ynghyd â'r geiriad ychwanegol i'w ychwanegu at hwn, fel y dangosir mewn print trwm uchod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**162. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Martin Williams**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cytunodd yr Aelodau i ohirio'r Hysbysiad hwn o Gynnig tan gyfarfod nesaf y Cyngor dyddiedig 23 Gorffennaf 2025. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**163. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**164. Gwahardd y Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Ni ddylid cyhoeddi'r adroddiad sy'n ymwneud â'r eitem ganlynol gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynodd y Cyngor yn unol â'r Ddeddf ystyried yr eitem hon yn breifat, felly cafodd y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth honno. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

**165. Cymeradwyaeth Cofnodion wedi'u Eithrio**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod yr Cyngor ar y dyddiad 02/04/2025 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 25 Mehefin 2025 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 19:15